# Egluro'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog

**Mae'r galw am ynni yn newid ym Mhrydain Fawr. Bydd angen llawer mwy o ynni glân, dibynadwy, a fforddiadwy yn y dyfodol er mwyn cefnogi twf diwydiannau a diwallu anghenion cymunedau.**

Rhaid i ni wneud newidiadau enfawr i'r system ynni er mwyn ateb y galw hwn, a symud ar gyflymder a graddfa nad yw Prydain Fawr wedi'u gweld o'r blaen. Mae'n her fawr sy'n gofyn am ddull mwy cydlynol o weithredu.


## Beth yw'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP)?

Mae'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn rhan o gynllun ynni newydd a fydd ar waith ar draws Prydain Fawr. Bydd yn ystyried:

- Pa rwydweithiau trawsyrru trydan a nwy, neu 'draffyrdd ynni', y mae eu hangen arnom er mwyn symud ynni'n effeithlon ar draws Prydain Fawr
- Ble gallai fod angen seilwaith trawsyrru newydd, neu seilwaith wedi'i uwchraddio, i wneud yn siŵr bod cartrefi a busnesau'n gallu cael gafael ar ynni
- Sut gallai'r rhwydwaith hydrogen newydd ein helpu i gludo a storio'r ynni hwn yn y dyfodol.

Mae pwyslais mawr ar drydan, nwy a hydrogen, gan fod y rhannau hyn o'r system yn fwy cysylltiedig â'i gilydd – mae penderfyniadau mewn un rhan yn cael effaith fawr ar y rhannau eraill, felly rhaid i ni eu cydlynu.

Mae Ofgem, y rheoleiddiwr ynni, wedi gofyn i ni lunio'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog. Bydd y cynllun yn creu darlun 25 mlynedd o anghenion rhwydweithiau ar draws Prydain Fawr, yn mapio'r lleoedd gorau ar gyfer seilwaith ynni, ac yn arwain buddsoddiad mawr mewn rhwydweithiau.



## Pam mae angen y cynllun hwn arnom

Mae angen y seilwaith ynni priodol ar gartrefi, busnesau a chymunedau i gynnal bywyd bob dydd a thwf yn y dyfodol. Rhaid i ni sicrhau bod gan Brydain Fawr rwydweithiau ynni o'r maint iawn er mwyn cynnal system ynni ddibynadwy, lân, a fforddiadwy.

Wrth i'n system ynni newid:

- Bydd angen ehangu'r rhwydweithiau trydan
- Bydd trawsyriadau nwy yn dal i ategu ein system ynni
- Bydd y system hydrogen yn datblygu ar sail angen.

Drwy gynllunio'r elfennau hyn gyda'i gilydd, gallwn reoli'r effeithiau'n well ac osgoi costau diangen.

NESO
National Energy System Operator

## Cysylltiadau'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog â chynlluniau eraill

Mae'r Cynllun hwn yn cydblethu â dau gynllun allweddol arall:

- Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP) yn dangos sut mae diwallu anghenion ynni Prydain Fawr yn y dyfodol, a lle mae angen ynni newydd
- Bydd ein Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn dangos mwy o flaenoriaethau yng nghyd-destun dosbarthu ynni lleol ar gyfer Cymru, yr Alban a naw rhanbarth yn Lloegr.



[Edrychwch ar ein hanimeiddiad ar gyfer y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog]

## Pum cam i lunio'r cynllun

Byddwn yn dilyn pum cam i ddatblygu'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog. Gadewch i ni edrych ar bob cam.

- **Bwrw ati** - casglu data a dadansoddi pa rwydweithiau ynni fydd eu hangen ar Brydain Fawr i drawsyrru trydan, nwy a hydrogen yn y dyfodol
- **Canfod** - edrych ar gyfyngiadau'r rhwydwaith ynni presennol a'i anghenion yn y dyfodol, a mynd ati i gyhoeddi ein canfyddiadau
- **Datblygu** - gweithio gyda pherchnogion seilwaith trawsyrru a rhanddeiliaid eraill ar opsiynau posibl i ddiwallu'r anghenion a ganfuwyd
- **Arfarnu** - penderfynu pa opsiynau fydd yn gweithio orau i Brydain Fawr yn gyffredinol. Rydym yn edrych ar bethau fel gwerth am arian, effeithiau ar systemau, a'r gallu i gyflawni. Yn y cam hwn byddwn yn dewis dyluniad rhwydwaith a ffefrir ar gyfer pob math o ynni. Byddwn hefyd yn cynnal asesiadau amgylcheddol i edrych ar yr effeithiau posibl ar fywyd gwyllt, tirweddau, a chymunedau, a sut mae lleihau'r effeithiau hyn
- **Cyflawni** - cyhoeddi'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog drafft a gwybodaeth ategol am yr amgylchedd, a gwahodd sylwadau gan randdeiliaid a'r cyhoedd. Ar ôl cael adborth byddwn yn mireinio'r cynllun fel y bo'n briodol, ac yn gofyn i Ofgem ei gymeradwyo. Bydd y cynllun terfynol a gymeradwywyd yn cael ei gyhoeddi wedyn ar ein gwefan.

## Sut byddwn yn ymgynghori ar y cynllun

Mae mewnbwn rhanddeiliaid yn allweddol i'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n weladwy, a'u bod yn rhoi cyfle i bobl siapio'r gwaith hwn ar bob cam. Byddwn hefyd yn:

- Parhau i ofyn am fewnbwn gan randdeiliaid y diwydiant ynni
- Parhau i ofyn am fewnbwn gan randdeiliaid amgylcheddol
- Gofyn am fewnbwn gan bobl eraill a allai gymryd rhan yn y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog, fel grwpiau budd i'r gymuned a budd i'r gymdeithas
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun ar draws gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr.

## Dyddiadau pwysig

Byddwn yn ymgynghori ar y cynllun drafft yn ystod gwanwyn 2028.

Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog terfynol yn ystod gaeaf 2028.

Byddwn yn diweddaru'r cynllun bob tair blynedd i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol. Bydd ein diweddariadau'n adlewyrchu newidiadau disgwyliedig i rwydweithiau er mwyn diwallu anghenion ynni Prydain Fawr yn y dyfodol, a fydd yn siŵr o gynyddu.

CSNPCY01 | Mehefin 2026

### Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm.

**neso.energy/network-planning**

**box.sep-portfolio@neso.energy**

NESO
National Energy System Operator